

Cynigion Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 2014 (fel y pasiwyd)

1. BOICOT MORRISONS

Cydnabyddda'r Cyfarfod Cyffredinol bod trafodaethau gyda chwmni Morrisons wedi cymryd lle dros nifer o flynyddoedd erbyn hyn. Cydnabyddwn hefyd nad yw'r cwmni wedi ymateb yn ddigonol i'r galwadau am wasanaeth cyflawn Gymraeg (amlygwyd hwn yn nigwyddiadau diweddar parthed ymdrin â phresgripsiwn yn y Gymraeg). Cydnabyddwn yn ychwanegol nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â chwmnïau preifat megis Morrisons yn y Mesur Iaith ac felly nad oes unrhyw ddewis bellach ond i alw ar bobol Cymru a thu hwr i ymrwthod â gwasanaethau anghyfartal a gwahaniaethol Morrisons.

Galwn ar y Cyfarfod Cyffredinol i gydnabod dilysrwydd ac ymarferoldeb boicot arfaethedig ar gwmni Morrisons. Galwn ymhellach ar y Cyfarfod Cyffredinol i gefnogi'n egwyddorol ac yn ymarferol yr ymgyrch i gasglu enwau'r rheini bydd yn ymrwmo i wrthod gwario arian gyda'r cwmni o'r cyntaf o Ragfyr 2014 oni bai bod y cwmni yn ymateb yn gadarnhaol i'r galwadau canlynol:

- sicrhau bod pob arwydd yn eich siopau yng Nghymru yn ddwyieithog. (Nodwn gyda chryn bryder, fod arwyddion uniaith Saesneg wedi cael eu gosod yn siop Bangor ers ei hadnewyddu, a rheini yn lle'r rhai dwyieithog fel yr oeddent cynt)
- tiliau hunan wasanaeth dwyieithog
- staff digonol sydd yn medru ymdrin â chwsmeriaid yn y Gymraeg ym mhob siop yng Nghymru
- labeli dwyieithog clir ar holl gynnyrch o du Morrisons
- deunydd hyrwyddo a marchnata (e.e. taflenni, hysbysebion, arwyddion dros dro) dwyieithog
- cyhoeddiadau uchelseinyddion dwyieithog yn holl siopau Cymru

Yn ogystal, galwn ar y Cyfarfod i gyfarwyddo Senedd y Gymdeithas i benderfynu un ai bwrw ymlaen gyda'r boicot neu ei diddymu yn yr wythnosau cyn 1af Rhagfyr 2014.

Cynigydd: Grŵp Hawliau

2. EIN BLAENORIAETHAU YMGYRCHU - BIL CYNLLUNIO AC ADDYSG GYMRAEG I BAWB

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol lwyddiannau ymgyrch #6pheth Cymdeithas yr Iaith, gan gynnwys sicrhau bod lle i'r Gymraeg yn neddfwriaeth cynaliadwyedd y Llywodraeth. Fodd bynnag, noda'r Cyfarfod Cyffredinol ymhellach bod y Prif Weinidog wedi methu yn ei gyfrifoldeb i gynnig strategaeth gynhwysfawr yn wyneb canlyniadau'r Cyfrifiad a gynhaliwyd dros dair blynedd yn ôl.

Cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol y dylai Senedd y Gymdeithas a'r grwpiau ymgyrch perthnasol flaenoriaethu dwy ymgyrch dros y flwyddyn i ddod, sef sicrhau:

- Bil Cynllunio sy'n llesol i'r Gymraeg a holl gymunedau Cymru
- Addysg Gymraeg i Bawb

Cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol ymhellach y dylem barhau i bwysu am becyn o newidiadau er mwyn cryfhau'r iaith dros y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys y chwe newid polisi canlynol:

1. Addysg Gymraeg i Bawb
2. Tegwch Ariannol i'r Gymraeg
3. Gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg
4. Safonau Iaith i Greu Hawliau Clir

5. Trefn Cynllunio er budd ein Cymunedau
6. Darlledwr aml-blattform Cymraeg newydd

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

3. LLUNIO MANIFFESTO AR GYFER ETHOLIADAU 2016

Cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol Uned Cyswllt y Cynulliad gydlynw llunio maniffesto ar gyfer etholiadau Cynulliad 2016, gan dderbyn arweiniad gan y grwpiau ymgyrchu a'r Senedd. Ymhellach, caniatâ'r Cyfarfod Cyffredinol i'r cyfarfod Cyngor a gynhelir ar 6ed Mehefin 2015, neu'r cyfarfod cyngor agosaf at y dyddiad hwnnw, fabwysiadu'r Maniffesto yn ei ffurf derfynol.

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

4. ADWEITHYDDION NIWCLEAR NEWYDD

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn nodi ac yn ail-ddatgan y cynnig a basiwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol 2011, sy'n gwrthwynebu codi adweithyddion niwclear newydd yn y Wylfa oherwydd y byddai'n fygythiad ieithyddol, amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol i Fôn a Chymru gyfan.

Noda'r Cyfarfod bod argyfwng niwclear Fukushima yn parhau. Mae'r Cyfarfod yn datgan ein cefnogaeth i'r diprwaeth o dros 40 o ymgyrchwyr o Ewrop, gan gynnwys cynrychiolydd o Gymdeithas yr Iaith, sydd yn ymweld a Japan ar hyn o bryd.

Noda'r Cyfarfod bod y posibilrwydd o godi Wylfa B yn gyrru'r galw mae Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn ei ragweld am filoedd o dai yn eu Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol hwn yn cyfarwyddo Rhanbarth Gwynedd-Môn, gyda chefnogaeth y Senedd, i barhau i ymgyrchu yn erbyn Wylfa B mewn perthynas agos â'r ymgyrch yn erbyn Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn.

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn cyfarwyddo Senedd a holl ranbarthau Cymdeithas yr Iaith i gydweithio gyda PAWB, CND Cymru, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear Cymru a Chynghrair Wrth Niwclear De Cymru yn yr ymgyrch yn erbyn Wylfa B, yn ogystal â Hinkley Point C yng Ngwlad yr Haf ac Olbury B yn Sir Gaerloyw sy'n beryglus o agos at Gymru.

Cynigydd: Rhanbarth Gwynedd a Môn

5. CREU SWYDDOG RHYNGWLADOL

Cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol i greu swyddog gwirfoddol ar y Senedd a fydd yn gyfrifol am gadw llygaid ar ddatblygiadau polisi ac ymgyrchu ieithyddol ymysg cymunedau rhyngwladol gydag ieithoedd a'u lleiafrifwyr.

Ynghyd â materion allanol eraill, bydd y swyddog hefyd yn gyfrifol am wahodd ymgyrchwyr iaith i Gymru ac am drefnu teithiau astudiaeth i aelodaeth y Gymdeithas yn rhyngwladol er mwyn dysgu a chreu cysylltiadau cryfach gyda'n cyd-ymgyrchwyr.

Cynigydd: Sioned Haf
Eilydd: Colin Nosworthy

6. DULLIAU CYMDEITHAS YR IAITH O GYMRYD PENDERFYNIADAU

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn cyfarwyddo Senedd y Gymdeithas i sefydlu ymchwiliad (tan gadeiryddiaeth yr Is-gadeirydd Gweinyddol) i drafod dull dod i benderfyniadau yng Nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas a'r broses yn arwain at hynny.

Gofynnwn i'r Is-gadeirydd Gweinyddol adrodd i'r Senedd yn ystod y flwyddyn ar gynnydd yr ymchwiliad. Bydd yr argymhellion terfynol yn mynd gerbron cyfarfod y Cyngor Cenedlaethol yn haf 2015, a bydd hawl gweithredu'r argymhellion yn syth os bydd 70% pleidlais o blaid yn y cyfarfod Cyngor. Os bydd anghytundeb a llai na 70% o'r bleidlais yn y Cyngor o blaid yr argymhellion, byddant yn cael eu cyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol 2015 ar gyfer penderfyniad i'w weithredu yn 2016.

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

7. CYNNAL GWASANAETHAU YN EIN CYMUNEDAU GWLEDIG

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn nodi:

- (a) fod ystod o wasanaethau'n diflannu o gymunedau Cymraeg - yn cynnwys ysgolion, siopau a banciau
- (b) fod presenoldeb gwasanaethau ai peidio yn ffactor wrth i bobl benderfynu ymgartrefu mewn cymunedau

Galwn ar Senedd y Gymdeithas, a'i grwpiau ymgyrchu perthnasol, i arwain trafodaeth agored yng Nghymru ar ddulliau dyfeisgar o gynnal gwasanaethau yn ein cymunedau gwledig.

Cynigydd: Ffred Ffransis
Eilydd: Bethan Williams

8. ADDYSG GYMRAEG I BAWB YNG NGWYNEDD A MÔN

Galwn ar Bennaeth Addysg newydd Cyngor Gwynedd i sicrhau bod pob plentyn yn ysgolion Gwynedd yn derbyn addysg Gymraeg gyflawn. Galwn ar Gynghorau Gwynedd a Môn i fabwysiadu polisi sy'n sicrhau mai addysg Gymraeg gyflawn y bydd pob disgybl yn y ddwy sir yn ei dderbyn.

Cynigydd: Rhanbarth Gwynedd-Môn

9. NATWEST YN CEFNU AR GYMUNEDAU GWLEDIG CYMRAEG

Condemniwn Fanc y NatWest am ei fwriad i gau canghennau yn Nyffryn Teifi ac yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y misoedd nesaf. Nodwn:

- (a) fod yma batrwm o dynnu allan o gymunedau gwledig Cymraeg
- (b) mai effaith cau'r canghennau yw gwanhau sail economaidd - ac yn enwedig y sector adwerthu - yn y cymunedau hyn
- (c) fod y banc yn gorfodi mwy o gwsmeriaid i dderbyn gwasanaeth Saesneg yn lle gwasanaeth Cymraeg trwy gau'r canghennau gan fod llai o gyfran staff Cymraeg yn y canghennau canolog a bod y gwasanaeth bancio arlein yn gwbl Saesneg.

(ch) fod Dyffryn Teifi i fod yn ardal cynllun peilot gan y Prif Weinidog o ran hybu datblygiad economaidd yn Gymraeg. Bydd cau banciau'n gwneud unrhyw ddatblygu'n anos, ond ni bu unrhyw ddatganiad gan y Prif Weinidog.

Galwn ar Fanc y NatWest i:

- (1) Beidio â chau'r canghennau hyn o leiaf hyd nes y byddai uned fancio symudol gwbl Gymraeg yn weithredol
- (2) Drefnu gyda Cholegau lleol fod cyrsiau i ddysgu staff i allu cyflawni eu gwaith yn Gymraeg fel rhan o'u hyfforddiant parhaus.
- (3) Gymryd camau brys i sicrhau fod modd bancio ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg

Galwn ymhellach ar fanciau eraill i beidio dilyn yr un drefn o gau canghennau gwledig; ac i Gymreigio eu gwasanaethau

Cynigydd: Ffred Ffransis

Eilydd: Cen Llwyd

10. DIWEDDARU'R CYFANSODDIAD YSGRIFENEDIG

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol y mabwysiadodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg gyfansoddiad ysgrifenedig yng Nghyfarfod Cyffredinol 2006, er mwyn gwneud penderfyniadau a threfnu gwaith y Gymdeithas mewn modd cyson a thryloyw.

Cyfarwydda'r cyfarfod grŵp gweinyddol y Gymdeithas i:

- sicrhau bod y cyfansoddiad yn cael ei diweddarau yn flynyddol o hyn allan yn sgil cynigion cyfarfodydd cyffredinol; ac i
- sicrhau bod y cyfansoddiad yn ymddangos ar wefan y Gymdeithas

Cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol bod y testun isod yn ddehongliad cywir o newidiadau i'r cyfansoddiad mewn cynigion a basiwyd yng nghyfarfodydd cyffredinol 2011, 2012 a 2013, a noda'r cyfarfod mai dyma felly yw cyfansoddiad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

<http://cymdeithas.org/cyfansoddiad>

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr Iaith

11. ADOLYGIAD CWRICWLWM LLYWODRAETH CYMRU

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bwysigrwydd ail gam adolygiad y cwricwlwm a gomisiynwyd gan y Gweinidog Addysg Huw Lewis ac a arweinir gan yr Athro Graham Donaldson.

Cred y Cyfarfod Cyffredinol ei bod yn annheg disgwyl y bydd yr Athro Donaldson yn deall lle canolog y Gymraeg yn ein cwricwlwm, ac yn nodi'r perygl y bydd yn ei gweld fel pwnc ychwanegol yn unig, yn lle sgil hanfodol na ddylid amddifadu unrhyw ddisgybl ohono.

Croesawa'r Cyfarfod Cyffredinol ddatganiad yn nogfen polisi diweddar "Bwrw Ymlaen" gan y Prif Weinidog yn datgan ei fod yn meddwl ei bod yn "... bwysig bod holl ddisgyblion Cymru ... yn cael cefnogaeth i siarad

y Gymraeg yn hyderus.”.

Felly, galwa'r Cyfarfod Cyffredinol ar i Lywodraeth Cymru:

- benodi addysgwyr o Gymru i gynorthwyo'r Athro Donaldson er mwyn i bobl gael hyder y bydd yr adolygiad ar sail dealltwriaeth o'r gwerthoedd sy'n sylfaenol i addysg yng Nghymru gan gynnwys lle hanfodol yr iaith Gymraeg;
- gyfarwyddo adolygiad yr Athro Donaldson i wireddu polisi'r Prif Weinidog fel y'i datgenir yn ei ddogfen polisi "Bwrw Ymlaen" er mwyn sicrhau bod holl ddisgyblion Cymru yn gadael yr ysgol gyda'r gallu a hyder i gyflawni ei waith a byw drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynigydd: Grŵp Ymgyrch Addysg

12.HAWLIAU IAITH NEWYDD

Cefnoga'r Cyfarfod Cyffredinol sefydlu hawliau iaith fel bod pawb yn cael byw yn Gymraeg, gan nodi bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi pedwar adroddiad am y safonau iaith arfaethedig. Galwa'r cyfarfod ar i Lywodraeth Cymru weithredu pob un o'r argymhellion ynddynt.

Ymhellach, galwa'r Cyfarfod Cyffredinol am newidiadau i safonau iaith arfaethedig Llywodraeth Cymru fel eu bod yn rheoliadau sydd:

- (i) yn cynnig dim llai na chynlluniau iaith;
- (ii) yn sicrhau amodau o ran defnydd iaith mewn grantiau a chontractau gyda thrydydd partïon;
- (iii) yn cynnig hawliau clir, eang a dealladwy i'r cyhoedd fydd yn rhoi hyder i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- (iv) yn gosod dyletswyddau clir i sefydliadau yn hytrach na gofyniad niwlog i lunio strategaethau;
- (v) yn cynnig llwybr clir i ragor o gyrff weinyddu'n fewnol yn Gymraeg;
- (vi) yn golygu bod effaith penderfyniadau ariannol a deddfwriaeth ar y Gymraeg yn cael ei ystyried;
- (vii) yn sicrhau nad oes oedi rhwng cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg unrhyw ddeunyddiau; ac
- (viii) yn rhoi cynnig rhagweithiol, yn hytrach na rhoi baich ar yr unigolyn i nodi eu bod nhw am ddelio â sefydliad yn Gymraeg.

Cynigydd: Grŵp Hawliau

Cynigion Brys:

Boicot Israel gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg

Fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol di-drais dros hawliau a rhyddid mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn boicotio:

1. cwmnïau o Israel
2. cwmnïau eraill sy'n cefnogi'r gwladychiad o diroedd Palesteina (gan gynnwys ABP, HP, Veolia, Barclays, Caterpillar ac eraill)

Bydd unrhyw bwrcasu o hyn ymlaen ar gyfer swyddfeydd, cyfarfodydd, raliâu, gigs, digwyddiadau ac unrhyw weithred arall yn osgoi cynnyrch a gwasanaethau a ddarparwyd gan gwmnïau o dan y ddau gategori uchod.

Mae eisiau boicot oherwydd polisïau gwladwriaeth Israel sydd yn rhoi pobl Palesteinaidd dan ormes. Fe fydd y boicot yn parhau nes bod Israel yn rhoi terfyn ar wladychu ardaloedd Palesteinaidd, yn rhoi cydraddoldeb llawn i Arabiaid Israelaidd ac yn rhoi'r hawl i ffoaduriaid Palesteinaidd dychwelyd i'w hardaloedd.

Cynhelir y boicot fel rhan o'r ymgyrch i roi pwysau ar wladwriaeth Israel yn yr un modd ag ymgyrchoedd heddychlon byd-eang yn erbyn apartheid yn Ne Affrica yn y 1980au. Mae'r Gymdeithas yn credu mewn cydraddoldeb ar gyfer pawb ac yn gwrthod gwahaniaethu ar unrhyw sail gan gynnwys gwrth-Semitiaeth a hiliaeth. Mae hi hefyd yn condemnio'r defnydd o drais gan unrhyw berson neu gorff ar gyfer unrhyw bwrpas.

Cynigydd: Carl Morris

Eilydd: Jamie Bevan

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd-Môn

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn galw ar Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i ohirio llunio Cynllun Adnau drafft y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd hyd nes y byddant wedi adolygu niferoedd y tai a'u seilio ar yr angen lleol.

Cynigydd: Osian Jones

Eilydd: Angharad Tomos

Her i Gyngor Powys

Noda'r cyfarfod bod pwysau gan Cymdeithas yr Iaith ac eraill ar Gyngor Sir Gâr yn y cyfnod yn arwain at Eisteddfod Genedlaethol Llanelli wedi dwyn ffrwyth gyda derbyn argymhellion y gweithgor a sefydlwyd i edrych ar sefyllfa'r Gymraeg yn sgil canlyniadau cyfrifiad 2011, a bod ein haelodau yno bellach yn cadw llygad barcud er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'r argymhellion hynny.

Mae'r cyfarfod yn galw ar Gyngor Sir Powys i sefydlu gweithgor ar frys i edrych ar gamau i wella sefyllfa'r Gymraeg ym Mhowys. Ymhellach, mae'r cyfarfod yn galw ar Gyngor Sir Powys i sicrhau eu bod yn symud ymlaen i weithredu polisïau newydd er lles y Gymraeg ar draws bob adran - gan gynnwys cynllunio ac addysg - erbyn haf 2015.

Mae'r cyfarfod yn dirprwyo i Ranbarth Powys benderfynu a fydd Cymdeithas yr Iaith yn cynnal dathliad neu brotest gyda Chyngor Sir Powys yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Meifod 2015.

Mae'r cyfarfod yn cyfarwyddo Senedd y Gymdeithas i weithio gyda Chell Maldwyn i sicrhau bod cefnogaeth addas ar gael i'n haelodau ym Mhowys.

Cynigydd: Miri Collard

Eilydd: Tamsin Davies